

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	11 Rhagfyr 2013
PWNC	Gwefannau i Gyngorau Tref a Chymuned
PWRPAS	Cyflwyno diweddariad o'r cynllun i gefnogi cyngorau tref a chymuned i ddatblygu presenoldeb ar y we
AWDUR	Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. CEFNIDIR

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i alluogi Awdurdodau Lleol i ddarparu grant o £500 yr un i Gyngorau Tref a Chymuned i sefydlu gwefan.
- 1.2 Pwrpas y grant hwn yw cynorthwyo Cyngorau Tref a Chymuned i baratoi ar gyfer Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), sydd yn cynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned i gyhoeddi gwybodaeth ar wefan; pwrpas y grant yw eu cynorthwyo i baratoi ar gyfer hynny.
- 1.3 Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi ei gomisiynu i weinyddu ac adnabod lefel y diddordeb gan Gyngorau Tref a Chymuned mewn datblygu gwefan.

2. DIWEDDARIAD

- 2.1 Ym mis Gorffennaf, rhoddwyd cynnig i'r Cyngorau Tref a Chymuned i ddatgan diddordeb mewn derbyn grant o hyd at £500.00 i ddatblygu gwefan. Gan fod y swm ar gael yn gymharol isel, penderfynwyd cynnig dau opsiwn, sef:
 - a) Opsiwn 1
Cyngor i sefydlu gwefan unigol, gan ymrwymo i gynnal y wefan am isafswm o dair blynedd.
 - b) Opsiwn 2
Cydweithio â Chyngorau Tref a Chymuned eraill yn y sir i sefydlu gwefan ar y cyd fyddai'n cynnwys adran i bob Cyngor unigol, gan ymrwymo ar y cyd i gynnal y wefan am isafswm o dair blynedd.
- 2.2 **Opsiwn 1**
Penderfynwyd y byddai Cist Gwynedd yn gweinyddu'r broses grant ar gyfer Opsiwn 1 uchod.

- 2.3 Ym mis Medi, derbyniwyd eglurder pellach gan Lywodraeth Cymru y byddai modd i Gyngorau Tref a Chymuned ddefnyddio'r grant ar gyfer y pwrpasau canlynol:
- creu presenoldeb ar y we o'r newydd
 - datblygu presenoldeb ar y we sydd eisoes yn bodoli.

- 2.4 Ar ddiwedd mis Hydref, bu i'r Gyngorau Tref a Chymuned ddatgan diddordeb fel a ganlyn yn y grant i sefydlu gwefan:

	Opsw'n 1	Opsw'n 2	Opsw'n 1+2	Dim Diddordeb	Heb Ymateb
Cyngorau Tref a Chymuned	21	19	2	10	9

- 2.5 Ym mis Tachwedd, anfonwyd ffurflenni cais gan Cist Gwynedd i'r Gyngorau Tref a Chymuned ddaru ddatgan diddordeb yn Opsw'n 1, gyda dyddiad cau'r broses ymgeisio ar 10 Ionawr 2014. Fel rhan o'r broses, pwysleisiwyd yr angen i wario a hawlio'r grant cyn diwedd mis Mawrth 2014.

- 2.6 I gyd-fynd gyda'r broses ymgeisio, cyflwynwyd canllaw sylfaenol i'r Gyngorau Tref a Chymuned a roddai arweiniad iddynt ar fanylion technegol i'w cynnwys mewn manyleb i wahodd prisiau gan ddarparwyr.

Opsw'n 2

- 2.7 Uned TG, Adran Gofal Cwsmer y Cyngor sydd yn arwain ar Opsw'n 2.
- 2.8 Bwriad yr Uned TG yw cynnull y rhanddeiliaid ynghyd, sef y Gyngorau Tref a Chymuned, er mwyn sicrhau eglurder o'r anghenion a phenderfynu ar ddarparwr.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:-
- parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygiad sefydlu gwefannau i Gyngorau Tref a Chymuned, gan dderbyn diweddariad ar y niferoedd sydd wedi ymgeisio am y grant yn y cyfarfod nesaf ar 18 Mawrth 2014.